

Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Department for Economy and Transport



Ein cyf/Our ref TO/KS/01442/20

Janet Finch-Saunders AS
seneddpetitions@cynulliad.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
6 Mai 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 2 Ebrill ynglŷn â Deiseb P-05-957 "Stop Nesaf Sanclêr" – Cefnogwch y cais am orsaf reilffordd yn Sanclêr.

O ystyried yr argyfwng presennol, a faint o ohebiaeth sy'n dod i law Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a'r Gogledd, mae wedi gofyn imi anfon ateb atoch y tro hwn.

Ysgrifennodd y Gweinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar 2 Mawrth ynglŷn â chyllid Llywodraeth y DU ar gyfer buddsoddi mewn "Adfer eich Rheilffordd". Eir ati yn y llythyr hwnnw i nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cronfa Gorsafoedd Newydd 3 Llywodraeth y DU, sef Glannau Dyfrdwy, Carno, Sanclêr a Melin Trelái/Parc Victoria. Mae asesiad dichonoldeb arall wrthi'n cael ei gynnal ar bob un o'r rhain – asesiad o'r opsiynau datblygu ar gyfer Metro'r De-orllewin yn achos Sanclêr.

Yng ngoleuni'r ffaith bod y cyfnod ymgeisio a bennwyd gan Lywodraeth y DU yn un byr ac na ellid bod wedi rhagweld hynny – pennwyd dyddiad cau o 5 Mehefin – comisiynwyd Trafnidiaeth Cymru (TC) i wneud rhagor o waith asesu a gwerthuso annibynnol gyda'r nod o sicrhau ein bod, yn achos pob un o'r pedair blaenoriaeth sydd ar y rhestr fer, yn barod i gyflwyno cais. Mae'r Gweinidog wedi gofyn hefyd i'r adroddiad gynnig atebion i'r problemau o ran amserlennu a materion eraill yn ymwneud â gweithredu a nodwyd gan y diwydiant rheilffyrdd hyd yma, a hynny oherwydd y bydd Llywodraeth y DU yn gofyn i'r diwydiant hwnnw fynegi barn am y ceisiadau a gaiff eu cyflwyno iddi.

Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru, ynghyd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr TC, ag AS yr etholaeth a Chyngor Tref Sanclêr ar 3 Ebrill i drafod cam newydd yr astudiaeth, ac roedd y cyfarfod hwnnw'n un cadarnhaol iawn. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer astudiaeth TC yn cynnwys gofyniad i ymgysylltu â rhanddeiliaid. O ran Sanclêr, dywedwyd wrth gynghorwyr annibynnol TC y dylid cynnwys y Cyngor Sir, Cyngor y Dref a chynrychiolwyr etholedig wrth wneud hynny.

Hoffwn bwysleisio mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yn unig yw buddsoddi o dan raglen y Gronfa Gorsafoedd Newydd, a'n bod yn falch iawn o gael cefnogaeth Cyngor Tref Sanclêr i sicrhau cyllid ar gyfer y cynigion y byddwn yn eu cyflwyno.

Yn gywir,

Dewi Rowlands

Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

ETGovernmentBusiness@llyw.cymru
ETGovernmentBusiness@gov.wales